

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe, ac ar Zoom ar ddydd Mercher, Gorffennaf 27^{ain} 2022 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	P. H. Roberts	Mrs A. J. Evans	Mrs K..D..L. Davies
	Mrs S..E. Thomas	Mrs C. Thomas	G. J. Davies
	S. Roberts	A. W. Jones	R..W. Barnes
	D. Nicholas	Mrs H..S. Bjork	D. Thomas
	J. W. Tandy	D. Jones	Miss G. Harries
	R. A. Davies	I. Rh. Llewelyn	D. Hopkins
	E. W. Nicholas		

46.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies wedi datgan buddiant yn y rhaglen ‘Tenis am Ddim’ gan ei fod yn Ysgrifennydd a Trysorydd Clwb Tenis Llandybïe.

Roedd y Cynghorydd E. W. Nicholas wedi datgan buddiant yn y rhaglen ‘Tenis am Ddim’ gan ei fod yn Llywydd ar Glwb Tenis Llandybïe.

47.

Croeso.

Roedd y Cadeirydd wedi croesawu Miss Gwenllian Harries i’r cyfarfod fel aelod cyfetholedig newydd Ward Saron.

48.

Cyflwyniad gan Rachel Carter, Swyddog Natur Lleol, Un Llais Cymru

Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad cynhwysfawr ynghylch y cefnogaeth grant sydd ar gael ar gyfer amryw fathau o brosiectau bioamrywiaeth ac astudiaethau achos, sydd naill ai ar y gweill neu wedi’u cwblhau. Mae sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymwneud â phrosiect ac yn chwarae rhan yn ei gwblhau a’i gynnal a chadw, yn allweddol os yw bid ariannol yn mynd i fod yn llwyddiannus. Bydd manylion y cyfleoedd am arian yn cael eu cyflwyno i’r Aelodau er mwyn iddynt eu hystyried, a **phenderfynwyd** bod y pwyllgor Parciau ac Ardaloedd Chwarae yn adnabod safleoedd addas, ac yn adrodd yn ôl yn eu cylch i’r Cyngor Llawn.

Os yw prosiect i fynd yn ei flaen rhaid ei fod ar dir sy’n eiddo i’r Cyngor, neu bod y tîrfeddianwr wedi rhoi ei ganiatâd bod y prosiect yn mynd yn ei flaen. Yn dilyn derbyn y cefnogaeth grant cychwynnol, y Cyngor fyddai’n gyfrifol am ysgwyddo’r costau parhaus; efallai y bydd ardaloedd llai difreintiedig yn derbyn llai o gyllid. Dylid cyflwyno ceisiadau am arian yn y lle cyntaf drwy law Rachel Carter.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Carter am ei chyflwyniad.

49.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y’u dosbarthwyd hwy:

Cadeirydd

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fehefin 29^{ain}, 2022.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fehefin 29^{ain}, 2022.

Penderfynwyd cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgor.

50.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

i) Materion yn codi o'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Fehefin 29^{ain}, 2022

a) Cofnod rhif (5) a 29(i) – Penodi'r pwyllgorau

Penderfynwyd penodi Mrs Gwenllian Harries, yr aelod pwyllgor enwebedig ar gyfer ward Saron, i wasanaethau ar y pwyllgorau canlynol:-

Datblygu Cymunedol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Codi proffil y Cyngor

b) Cofnod rhif 1089, 12(a) a 29(ii) – Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021/2022 – Chwynladdwyr – Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copi llawn o'r ymateb wedi'i ychwanegu at wefan y Cyngor. I grynhoi, mae'r Cyfarwyddwr yn dweud:-

Hoffwn gadarnhau bod yr Awdurdod yn defnyddio ein cyflenwr fframwaith, sef Nomix Enviro Ltd, i gyflenwi ein holl gynnyrch chwynladdwr, ac i'ch hysbysu bod yr holl gynnyrch glyffosad sydd ar werth ar hyn o bryd yn y DU wedi'u ddyfarnu'n ddiogel o ran iechyd bodau dynol. Mae Llywodraeth Cymru a'n cyflenwr Nomix hefyd wedi cadarnhau bod ein cynnyrch chwynladdwr yn cwrdd â safonau rheoleiddiol llym, ac nid yw'n fygythiad i iechyd bodau dynol neu anifeiliaid neu'r amgylchedd.

*Mae nodyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru, yn dyddio o Awst 2018, yn datgan bod yr hawl gyfredol i ddefnyddio Glyffosad mewn grym tan **Ragfyr 15 2022**, a bod ei ddefnydd wedi'r dyddiad hwnnw'n dibynnu ar benderfyniad pellach. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori bod defnyddwyr plaladdwyr yng Nghymru yn cydymffurfio â'r safonau disgwylidig yn unol â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU - Defnyddio Plaladdwyr mewn Ffordd Gynaliadwy, a Chyfraith yr UE.*

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu bod cynrychiolydd o Gyngor Sir Caerfyrddin yn mynychu cyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

c) Cofnod rhif 38 – Cyfethol Aelod newydd yn ward Saron – dylai enw'r ymgeisydd ar gyfer y ward fod yn Mrs Caryl Tandy.

51.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Nid oedd unrhyw gyfranogiad.

GOHEBIAETH

52.

Adroddiadau Trosedd yr Heddlu

Cofnodwyd y troseddau canlynol yn ystod mis Gorffennaf 2022:-

Llandybie

Difrod Troseddol	1
Ymosod	4
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau	2
Digwyddiadau domestig	1
Blackmél	1
Cyfathrebu Maleisus	1
Lladrad	3
Dwyn o siop	3

Saron, gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc

Stelcio	2
Lladrad	1
Difrod Troseddol	1
Ymosod	2
Aflonyddu	3
Mynd â cherbyd heb ganiatâd	2

Penygroes

Cyfathrebu Maleisus	1
Trosedd trefn gyhoeddus â chymhelliant hiliol	1
Ymosod	1
Aflonyddu	2
Stelcio	1
Arall	1

53.

Enwi stryd ar ddatblygiad newydd ar dir i'r de o Erw'r Brenin, Llandybie

Penderfynwyd argymhell i Gyngor Sir Caerfyrddin bod y datblygiad newydd yn cael ei enwi'n Clôs Felingoed / Melingoed Close, gan fod y datblygiad wedi'i adeiladu ar safle hen felin goed.

54.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig 2018- 2033

Roedd yr Aelodau wedi'u hysbysu cyn hyn bod dyddiad gweithredu'r CDLI newydd wedi'i ddiwygio, gan fod rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin ystyried sut mae delio â chanllawiau cynllunio interim gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch lefelau ffosffad mewn ardaloedd penodol. Roedd sawl mater arall wedi codi, a bydd amserlen newydd yn cael ei chyflwyno yn y man i Lywodraeth Cymru, gan rhagweld y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal erbyn Ionawr 2023.

55.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Llwybr Troed rhif 51/105 ym Monllwyn

Gofynnwyd bod y llwybr troed hwn, sy'n gweld llawer o ddefnydd, yn cael ei dorri unwaith eto, ac roedd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol gan R Gleaves am £80.

ii) Contract cynnal a chadw

Derbyniwyd anfoneb gwerth £2425 oddiwrth Dynevor Tree Services am dorriad cyntaf y rhaglen cynnal a chadw'r llwybrau troed. Roedd yr holl waith wedi'i gwblhau'n foddhaol a **phenderfynwyd** talu'r anfoneb.

b) Parciau

i) Prydles Parc Penygroes

Erbyn hyn roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi hysbysu'r Clerc eu bod nawr yn gallu ffurfioli'r trefniadau prydlesi ar gyfer y parc. Roedd yr holl ddogfennaeth wedi'i anfon at Gyfreithwyr CCW yn Llandybie, a oedd wedi delio â'r holl brydlesi ar gyfer y parciau eraill. Roedd y brydles wedi'i dychwelyd at Gyngor Sir Caerfyrddin gyda mân newidiadau ac, unwaith ei bod wedi'i chymeradwyo, bydd y brydles ffurfiol yn cael ei llofnodi ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfoneb, sef cyfanswm o £1106.40.

ii) Heol Spien, Penygroes

Prynwyd, oddiwrth Online Playgrounds Ltd, dau ddarn o bren wedi'u lamineiddio ar gyfer y siglen ffrâm bren ym mharc Heol Spien am bris o £180.80 ynghyd â chost cludiant a TAW. Roedd yr hen bren yn rhannol bwdr, ac felly roedd angen ei amnewid er mwyn cydymffurfio â rheolau Iechyd a Diogelwch. Ar ôl i'r archeb gael ei hanfon, roedd adroddiad Arolygu'r Parciau yn Flynyddol, a gynhaliwyd gan arolygydd annibynnol, hefyd wedi adnabod y broblem, ac wedi nodi y dylid ynysu'r eitem o offer tan fod y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau. Gwnaethpwyd hyn ar unwaith, ac roedd y gwaith dilynol wedi'i gwblhau'n foddhaol gan P. Bishop.

Cadeirydd

c) Gwasanaeth blynyddol i'r boeleri ym Mhafiliwn Saron

Roedd y boeleri ym mhafiliwn Saron wedi derbyn gwasanaeth blynyddol gan gwmni Next Gen Plumbing and Heating Ltd a hynny am bris o £320 heb godi TAW. Er mwyn cwblhau'r gwaith roedd angen gosod rhai darnau newydd.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfoneb.

Bu trafodaeth ynghylch ôl-troed carbon y Cyngor ac unrhyw bolisi sy'n cael ei fabwysiadu pan yn amnewid neu'n cynnal a chadw'r systemau gwresogi yn y pafiliynau. **Penderfynwyd** sefydlu pwyllgor Amgylchedd i ddelio'n benodol â'r holl agweddau ar effeithlonrwydd ynni. Yn ychwanegol, **penderfynwyd** penodi'r cynghorwyr canlynol i wasanaethu ar y pwyllgor:-

Llandybïe – S Roberts a Mrs H. Bjork

Saron – Mrs K. D. L. Davies a Mrs A. J. Evans

Penygroes – D Thomas a J. W. Tandy

Heolddu – I. Rh. Llewelyn

ch) Rhaglen 'Tenis am Ddim' yng nghyrtiau Tennis Llandybïe

Mae hon yn rhaglen hyfforddiant am ddim sy'n cynnig sesiynau tenis amgen ar gyfer pob oedran, ac yn cael ei chyflwyno gan hyfforddwyr tenis cymwysedig. Mae Clwb Tennis Llandybïe o blaid y rhaglen ond, gan fod y cyrtiau wedi'u perchnogi ar brydles o Gyngor Sir Caerfyrddin, mae rhaid i 'Tenis am Ddim' dderbyn caniatâd i ddefnyddio'r cyrtiau ar y Sadwrn, rhwng 3 – 4.30yh yn wythnosol.

Penderfynwyd caniatáu bod y cyrsiau yn cael mynd yn eu blaen.

d) Cyfleusterau Cyhoeddus

Yn dilyn adroddiadau am ddifrod, cytunwyd atgyweirio seston y toiled, a tap sinc a oedd yn gollwng. Yn ychwanegol, roedd y lloriau yn y ddau gyfleuster cyhoeddus wedi'u glanhau yn drwyadl. Roedd yr holl waith wedi'i gwblhau'n foddhaol gan JT Services am bris o £125.

Roedd cynnyrch ar gyfer y cyfleusterau cyhoeddus wedi'u harchebu oddiwrth Newhall Janitorial am bris o £152.28 a TAW.

Penderfynwyd y dylid talu'r ddwy anfoneb.

56.

PECYN CYMORTH CYLLID A LLYWODRAETHU

Mae'r pecyn cymorth wedi'i lunio ar y cyd gan Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, ac wedi'i ddylunio i gefnogi cynghorau yn eu gwaith o gwrdd â chyfrifoldebau statudol, meddu ar reolaeth a llywodraethu ariannol cadarn a chyflwyno'r deilliannau gorau ar ran y gymuned. Mae'n cefnogi'r cyngor yn ei waith o adolygu ei drefniadau cyfredol, ac ystyried pa mor effeithlon y mae'r trefniadau hyn.

Mae dau ran i'r pecyn cymorth – 1) Prawf Iechyd sy'n cael ei gynnal gan y Clerc er mwyn asesu'r trefniadau cyfredol a 2) Hunan Asesu, sy'n galluogi'r cynghorwyr i fyfyrion ar y meysydd hynny, ac ystyried sut y gall y cyngor gael yr effaith fwyaf ar y gymuned. Nid yw'r pecyn cymorth yn orfodol ac nid yw'n arf archwilio.

Roedd y Clerc wedi cyflwyno copi o'r pecyn cymorth gorffenedig i'r Aelodau, pecyn a oedd yn adnabod bod yr holl feysydd statudol yn cael eu diwallu. Roedd angen adolygu rhai meysydd nad ydynt yn statudol.

Penderfynwyd bod yr Aelodau yn adolygu'r gofynion hunan asesu a argymhellir yn y ddogfen, a bod trafodaeth bellach yn cael ei chynnal yn ystod y cyfarfod nesaf.

57.

GILFACH IAGO

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd taliad wedi'i dderbyn oddiwrth Celtic Energy hyd yn hyn, ond bod yr anfoneb briodol yn gofyn am dâl wedi'i hanfon atynt.

58.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r cyfrifon

Dywedodd y Clerc bod y cyfrifon canlynol, gyda chydsyniad y Cadeirydd, wedi'u talu ers y cyfarfod diwethaf:

5893	Banc Bwyd Rhydaman	Rhoddd grant	£1000.00
5894	EDF	Parc Penygroes – Mehefin 2022	£17.63
5895	EDF	MUGA Llandybie – Mehefin 2022	£14.25
5896	EDF	Paflawn Saron – Mehefin 2022	£19.25
5897	EDF	Pafiliwn Llandybie – Mehefin 2022	£41.54
5898	EDF	Sied Fowlio Llandybie – Mehefin 2022	£28.33
5899	EDF	Parc Capel Hendre – Mehefin 2022	£14.25
5904	R Gleaves	Llwybr troed 51/105 ym Monllwyn - torri'r glaswellt unwaith yn ychwanegol	£80.00
5906	Online Playgrounds Ltd	Darnau newydd i'r ffrâm bren – siglenni parc Heol Spien	£342.96
5908	BT	Bil ffôn y Clerc 15/7/22 – 14/10/22	£137.25
5910	Newhall Janitorial Ltd	Nwyddau i'r cyfleusterau cyhoeddus	£182.74
5912	Dynevor Tree Services	Contract cynnal a chadw'r llwybrau troed – torriad 1 ^{af}	£2425.00

Cadeirydd

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau a'r ceisiadau am dâl canlynol:

5900	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion a'r Cynllun Hyfforddi	£165.75
5901	S Griffith	Cyflog Gorffennaf 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£2395.99
5902	R Thomas	Cyflog Gorffennaf 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£676.31
5903	Cyllid y Wlad	Gorffennaf 2022	£1021.38
5905	JEMS Environmental Ltd	Hylendid dŵr – Mai a Mehefin 2022	£562.52
5907	Next Gen Plumbing and Heating Ltd	Gwasanaethu'r boeleri yn flynyddol ym mhafiliwn Saron	£320.00
5909	J T Services	Contract cynnal a chadw'r Cyfleusterau Cyhoeddus yng Ngorffennaf, ynghyd â'u glanhau yn drwyadl, atgyweirio'r toiled a thapiau'r sinc a thorri'r glaswellt ddwy waith yng Ngorsddu.	£1135.00
5911	Cyfreithwyr CCW	Cytundeb prydles Trosglwyddo Ased parc Penygroes	£1106.40

Penderfynodd yr Aelodau y dylid talu'r cyfrifon.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Cyngor Cymuned Llandybie 2022/2023

	Cyllideb 2022-23 £	Incwm a Gwariant 01.04.22- 30.06.22 £
Praesept	180,000	60,000
Llog: Lloyds	25	4
Llog: cyfrifon cadw	250	
Hawliau Tramwy Cyhoeddus	3,000	
Cytundebau Llog	4,700	4700
	187,975	64,704
Staffio	48,858	12,281
Adeiladau	16,950	5,441
Gwasanaethau Swyddfa	4,800	2,609
Costau'r Aelodau	3,300	650
Gwasanaethau a	7,350	597

Cadeirydd

Thanysgrifiadau

Adran 137		0
Taliadau yn unol â phwerau eraill	} 18,000	0
Mannau Agored Cyhoeddus		0
Neuaddau pentref		0
Claddfeydd		0
Hawliau tramwy cyhoeddus – cynnal a chadw	} 10,000	1,075
Hawliau Tramwy Cyhoeddus - gwelliannau		0
Torri'r glaswellt/sbwriel/cyfleusterau	28,000	240
Atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau	30,000	4,469
Goleuo cyhoeddus - ynni	}	
Goleuo cyhoeddus - gwelliannau		6,000
Datblygu cymunedol	63,000	4,298
Cyfleusterau cyhoeddus	12,000	2,730
	<u>248,258</u>	<u>34,390</u>

Balans am y flwyddyn (cyfnod)

		30,314
d/y		<u>309,286</u>
c/y	0	<u>339,600</u>

Arian parod a buddsoddiadau	337,742
Dyledwyr	1,858
Credydwyr	0
	<u>339,600</u>

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad

(iii) Cysoniad Arian Parod Chwarterol hyd at Fehefin 30^{ain}, 2022

Roedd y Cynghorydd Mrs A. J. Evans, yng nghwmni'r Clerc, wedi cynnal y cysoniad arian parod ar Orffennaf 18^{fed}, 2022. O ran y ffigyrau, nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw atynt. Oherwydd newid polisi gan Gymdeithas Adeiladu Abertawe, nid ydynt bellach yn cyhoeddi datganiadau misol yn awtomatig, felly, yn y dyfodol, bydd rhaid i'r Clerc ffonio'r Gymdeithas i ofyn am ddatganiadau chwarterol i gyd-fynd â'r dyddiadau cysoni arian parod.

Cadeirydd

59.

Cais am wybodaeth oddiwrth Gynghorwyr Sir ynghylch cytundebau Adran 106

Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

60.

Adroddiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Roedd y Cynghorydd Mrs C. Thomas wedi mynychu'r digwyddiad dadorchuddio'r murlun gan Glwb Llewod Rhydaman yn Nhafarn y Cross, Rhydaman.

61.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar **Fedi 28th, 2022.**

62.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.10 yh.